

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer**

**Tachwedd 10fed, 2014**

**Presennol:** : Linda Morris (Cadeirydd), Emyr Jones, John Morris, Gwyn Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans, Lis Puw

Ymddiheuriadau: Olwen Jones, Eleri Jones

1. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriad Eleri Jones.
2. Gyda thristwch derbyniwyd ymddiswyddiad Mrs Olwen Jones o'r Cyngor a chytunwyd i anfon i ddiolch iddi am ei gwaith ar hyd y blynyddoedd. Eglurodd y Clerc y camau nesaf i'w cymryd ac fe gymeradwywyd symud ymlaen i gael Cynghorydd arall i ward Gwalia.
3. Etholwyd Eleri Jones yn Is gadeirydd.
4. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
5. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
6. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 8fed, 2014.
7. Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda
8. **Biniau** - derbyniwyd ymateb Cyngor Gwynedd yn mynegi astudiaeth bellach o'r broblem. Darllenodd y Cynghorydd Alan Jones Evans lythyr a dderbyniodd yn manylu ar anawsterau gyrru lorïau ail-gylchu ar hyd ffyrdd culion ac yn gwneud awgrymiadau o waith dan sylw i wella'r llecyn ail-gylchu presennol.
9. **Y fynwent:** mae cais am grant wedi ei anfon at Swyddog Parc Cenedlaethol Eryri; mae'r gwrych wedi ei thorri.
10. **Y Wefan:** mae rhan Llangywer o'r Wefan yn ei le.
11. **Trafnidiaeth Cymunedol** – derbyniwyd adroddiad o gyfarfod diweddar yn Nhanybwllch a chytunwyd i ofyn i Bartneriaeth Penllyn holi am drafnidiaeth gymunedol yn ardal Penllyn.
12. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** mae'r perchennog wedi trwsio'r wal oedd wedi disgyn ar ochr y ffordd ac mae goleuadau stryd Plas Onn yn gweithio. Soniodd Alan Jones Evans am hynt y prosiect Ysgol Gydol Oes sydd ar hyn o bryd yn derbyn sylw gan Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol i lwyddiant y cynllun fod yr elfen gymunedol yn gryf yn y cynnig. Mae uwchraddiad diweddar y Llyfrgell, y cynnig i uwchraddio'r Neuadd i allu cynnig agweddau theatr a dangos ffilmiau yn greiddiol i'r cynnig. Soniodd hefyd am grant gan FAW i greu cae 3G a fydd yn cael ei ddefnyddio hefyd gan bartneriaid yr ysgol megis Coleg Meirion Dwyfor / Llandrillo.
13. **Materion ariannol:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol a chytunwyd i dalu anfoneb Hacker Young.

**14. Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr.

**15. Gohebiaeth:**

**1) Parc Cenedlaethol Eryri:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i welliannau i ganolfan addysg awyr agored Rhosygwaliau.
- ii Cadarnhawyd yr wybodaeth a geisiwyd am faes carafanau Tŷ Isaf.
- iii Cadarnhawyd cymeradwyo cais cynllunio Tŷ Isaf am ffenestri ar do'r beudy NP5/70/58E
- iv Cadarnhawyd y gymeradwyaeth i adeiladu estyniad un llawr i Feudy Isaf NP5/70/1106B
- v Cymeradwywyd cais NP5/70/E140B i osod gwifren drydan dan y ddaear ym Mryn Bedwog

**2) Gwynedd:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am waith BT Openreach ar y ffordd wrth faes carafanau Pen y Bont.
- ii Ystyriwyd cais am wybodaeth parthed lletya pobl hŷn a chytunwyd i bwysu am ofal ym Meirionnydd i gleifion sy'n dioddef dementia.
- iii Derbyniwyd gwybodaeth am her ariannol Gwynedd ac adroddodd y Cynghorydd Sir ar y cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Ysgol y Berwyn i ystyried blaenoriaeth gwasanaethau Cyngor Gwynedd.

**3). Un Llais Cymru:**

Cytunodd W D Williams, Gwyn Roberts ac Alan Jones Evans i fynychu'r hyfforddiant a gynhelir yng Nghanolfan Henblas ar 25/11/14. Cytunwyd i ofyn i Eleri Jones fynychu hefyd.

Diolchwyd i W D Williams am fynychu'r Pwyllgor Ardal y mis hwn.

**4) Llywodraeth Cymru:** derbyniwyd gwybodaeth am Arolwg canfod moch daear marw

**5) Eraill:** Derbyniwyd gwybodaeth am grantiau cymunedol.

Derbyniwyd bwletin gwybodaeth Mantell Gwynedd.

16. Cytunwyd ar ddyddiad y Cyfarfod nesaf: 19/1/15

*Amser gorffen: 9.10pm*

